

## HYSBYSIAD O GYFETHOL

Adran 116 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

## NOTICE OF CO-OPTION

Section 116 Local Government (Wales) Measure 2011

RHODDIR HYSBYSIAD TRWY HYN fod Cyngor Cymuned Y Fali yn bwriadu Cyfethol 1 aelod i lenwi'r lle(oedd) gwag sydd ar gael ar gyfer Cynghorydd/Cynghorwyr yng Nghymuned (Ward) y Gorad yn dilyn ymddiswyddiad un Cyngor Cymuned.

Ceisir datganiadau o ddiddordeb gan aelodau o'r cyhoedd sy'n cyflawni'r meini prawf canlynol ac sydd â diddordeb mewn cynrychioli eu cymuned ar y Cyngor Cymuned dywededig. Rhaid bod yn ddinesydd Prydain, y Gymanwlad, Iwerddon neu'r Undeb Ewropeaidd ac yn 18 oed neu'n hŷn, ac yn cyflawni o leiaf un o'r meini prawf canlynol:

- wedi'ch cofrestru fel etholwr llywodraeth leol ar gyfer yr ardal a enwir uchod; neu
- yn ystod y cyfan o'r 12 mis diwethaf, wedi bod yn berchennog neu'n denant tir neu safle arall yn y gymuned a enwir uchod; neu
- wedi bod â'ch prif neu'ch unig weithle yn ystod y 12 mis diwethaf yn y gymuned a enwir uchod; neu
- rydych wedi byw yn y Gymuned, neu o fewn 4.8 cilometr ohoni yn ystod y cyfan o'r 12 mis diwethaf.

Os ydych yn dymuno cael eich ystyried i gael eich cyfethol ar gyfer y sedd(au) gwag, neu'n dymuno cael rhagor o wybodaeth ynghylch rôl Cynghorwyr Cymuned, cysylltwch â'r Clerc y Cyngor Cymuned ar/yn [valleycommunitycouncil@gmail.com](mailto:valleycommunitycouncil@gmail.com). erbyn Dydd Gwener 14 Hydref 2022.

Mae rhai pobl penodol wedi'u hanghymhwyso rhag ymgeisio, yn eu plith swyddogion cyflogedig y Cyngor, unrhyw un sy'n destun gorchmynion cyfyngu methdalwyr a'r rheiny sy'n destun dedfrydau o garchar yn ddiweddar. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau ei bod yn gymwys i sefyll.

NOTICE IS HEREBY GIVEN that the Valley Community Council intends to Co-opt 1 member(s) to fill the vacancy(ies) that exist in the office of Councillor for the Gorad (Ward) following the resignation of one Community Councillor

Expressions of interest are being sought from members of the public who meet the following qualifications and are interested in representing their community on the aforementioned Community Council. You must be a British, Commonwealth, Irish or a European Union citizen and be 18 years of age or over; and meet at least one of the following criteria:

- registered as a local government elector for the area named above; or
- during the whole of the last 12 months occupied as owner or tenant land or other premises in the community named above; or
- your principal or only place of work during the last 12 months has been in the community named above; or
- you have during the whole of the last 12 months resided in the Community or with 4.8 kilometres of it.

If you wish to be considered for co-option for the vacant seats(s) or want more information regarding the role of a Community Councillor please contact the Clerk to the Council Community on/at [valleycommunitycouncil@gmail.com](mailto:valleycommunitycouncil@gmail.com) by Friday 14<sup>th</sup> October 2022.

Certain people are disqualified from standing, and these include paid officers of the Community Council, anyone subject to bankruptcy restriction orders and those subject to recent sentences of imprisonment. It is the responsibility of the candidate to ensure that they are qualified to stand.